


# Adroddiad Cynaliadwyedd 2024



Adra

# Cynnwys

## Cyflwyniad 3

Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig 4

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 5

## CYMDEITHASOL 7

Thema 1: Fforddiadwyedd a Diogelwch 8

Thema 2: Diogelwch ac Ansawdd Adeiladu 15

Thema 3: Llais y Tenant 17

Thema 4: Cefnogaeth i Breswylwyr 19

Thema 5: Creu Lleoedd 21

## AMGYLCHEDDOL 23

Thema 6: Newid Hinsawdd 24

Thema 7: Ecoleg 29

Thema 8: Rheoli Adnoddau 30

## LLYWODRAETHU 31

Thema 9: Strwythur 32

Thema 10: Bwrdd ac Ymddiriedolwyr 34

Thema 11: Llesiant Staff 35

Thema 12: Cadwyn Gyflenwi 37

# Cyflwyniad

Mae'r cysyniad o gynaliadwyedd wedi symud ymlaen o'r gyd-destun amgylcheddol traddodiadol yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae bellach yn cynnwys ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (Environmental, Social, and Governance - ESG). Mae'r esblygiad hwn yn hanfodol yn y maes tai cymdeithasol, lle mae cydgyfeirio cyfrifoldeb amgylcheddol, tegwch cymdeithasol, a thryloywder llywodraethu yn allweddol i adeiladu cymunedau gwydn a chynhwysol.

Yn Adra rydym yn cymryd ein hymrwymadau ESG o ddifri, ac felly rydym wedi mabwysiadu'r Safon Adrodd ar Gynaliadwyedd ar gyfer Tai Cymdeithasol. Adra oedd y cyntaf i fabwysiadu Safon Adrodd Cynaliadwy y sector tai cymdeithasol ym mis Tachwedd 2020, ac yn un o'r rhai cyntaf yng Nghymru i wneud hynny. Mae adrodd yn erbyn y safon yn cyd-fynd ag un o'n gwerthoedd craidd o fod yn agored gyda'n cwsmeriaid, partneriaid, a buddsoddwyr ac yn ein galluogi i adrodd ar berfformiad ESG mewn ffordd dryloyw, gyson a chymharol.

Fel rhan o'n hymrwymiad, rydym yn adrodd yn flynyddol yn erbyn y safon a dyma'r pedwerydd adroddiad o'i fath a gyhoeddwyd gan Adra ers mis Hydref 2021.

Mae ein Cynllun Corfforaethol 2022/25 yn tynnu sylw at ein hymrwymiad i leihau'r effaith yr ydym yn ei gael ar yr amgylchedd, ag un o'n prif flaenoriaethau yw datgarboneiddio ein cartrefi. Caiff hyn ei gefnogi gan ein huchelgais i leihau ein hól troed carbon drwy chwilio am fodelau darparu amgen, croesawu arloesedd, a dangos ein hawydd gwirioneddol i fod yn wyrdd.

Rydym yn berchen dros 7,100 o gartrefi ar draws Gogledd Cymru ac felly mae ein dylanwad o ran cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl a'r amgylchedd cyfagos yn sylweddol. Mae gennym rôl allweddol i chwarae i wneud cyfraniad sylweddol at leihau allyriadau carbon Cymru wrth ddatblygu modelau darparu amgen a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Er bod yr adroddiad hwn yn caniatáu i ni ddangos i gynulleidfa ehangach o randdeiliaid a buddsoddwyr, trwy fetrigau allweddol ac astudiaethau achos / asesiadau / dadansoddiad o wir faint ein heffaith gymdeithasol ar yr amgylchedd ehangach, rydym hefyd am ddangos sut mae ein gweithgarwch yn rhoi ein cwsmeriaid yn ganolog i bopeth a wnawn.



# Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

Mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, a gafodd eu mabwysiadu gan bob aelod gwladol o'r Cenhedloedd Unedig yn 2015 wedi dod yn alwad pwerus a chyfres o nodau byd-eang cyffredin sy'n mynnu bod buddsoddwyr (ar y cyd gyda llywodraethau, busnesau a'r gymdeithas ddinesig) yn gwneud mwy i roi diwedd ar dlodi, gwarchod y blaned a sicrhau bod pawb yn mwynhau heddwch a ffyniant.

Mae tai cymdeithasol yng Nghymru yn cyfrannu'n sylweddol at nifer o Nodau Datblygu Cynaliadwy (SDGs) y Cenhedloedd Unedig, gan chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo cynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Dyma sut mae mentrau tai cymdeithasol yng Nghymru yn cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy penodol:



**SDG1 Dim Tlodi:** Mae tai cymdeithasol yng Nghymru yn darparu opsiynau tai fforddiadwy a diogel ar gyfer unigolion a theuluoedd incwm isel, a thrwy hynny helpu i liniaru tlodi a digartrefedd. Drwy sicrhau mynediad at dai diogel a sefydlog, mae mentrau tai cymdeithasol yn cyfrannu at SDG 1 drwy fynd i'r afael ag un o achosion sylfaenol tlodi.



**SDG3 Iechyd a Lles Da:** Mae cysylltiad agos rhwng mynediad at dai digonol a chanlyniadau iechyd. Mae tai cymdeithasol yng Nghymru yn hybu iechyd a llesiant da drwy ddarparu amgylcheddau byw diogel ac iach i breswylwyr. Yn ogystal, mae darparwyr tai cymdeithasol yn aml yn cynnig gwasanaethau cymorth a rhaglenni cymunedol sy'n gwella lles cyffredinol preswylwyr.



**SDG7 Ynni Fforddiadwy a Glân:** Mae llawer o brosiectau tai cymdeithasol yng Nghymru yn blaenoriaethu effeithlonrwydd ynni ac integreiddio ynni adnewyddadwy. Trwy weithredu dyluniadau adeiladau ynni-effeithlon, gosod paneli solar, a hyrwyddo arferion ynni cynaliadwy, mae tai cymdeithasol yn cyfrannu at SDG 7 trwy gynyddu mynediad at ynni fforddiadwy a glân tra'n lleihau allyriadau carbon.



**SDG11 Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy:** Mae tai cymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol wrth greu cymunedau cynhwysol, diogel, gwydn a chynaliadwy. Trwy ddarparu opsiynau tai fforddiadwy mewn ardaloedd trefol, mae mentrau tai cymdeithasol yng Nghymru yn helpu i leihau anghydraddoldebau, hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol, a gwella ansawdd bywyd cyffredinol trigolion.



**SDG13 Gweithredu er Lles yr Hinsawdd:** Mae ymdrechion i wella cynaliadwyedd tai cymdeithasol, megis ôl-osod ynni-effeithlon a gosodiadau ynni adnewyddadwy, yn cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd. Drwy leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae prosiectau tai cymdeithasol yng Nghymru yn cefnogi SDG 13 drwy hybu gweithredu ar yr hinsawdd ar lefel leol.



**SDG17 Partneriaethau ar gyfer y Nodau:** Mae cyflawni datblygiad cynaliadwy yn gofyn am gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ymhlith rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys asiantaethau'r llywodraeth, darparwyr tai, sefydliadau cymunedol, a thrigolion. Mae mentrau tai cymdeithasol yng Nghymru'n aml yn cynnwys partneriaethau rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, yn ogystal ag ymdrechion ymgysylltu â'r gymuned, i fynd i'r afael â heriau tai a hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn unol â SDG 17.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Er bod y Safon Adrodd ar Gynaliadwyedd yn cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, fel cymdeithas tai yng Nghymru rydym hefyd yn ystyried ein cyfraniad at gyflawni'r 7 Nod Llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ddarn arloesol o ddeddfwriaeth sy'n rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu cynaliadwy a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru.

Crëwyd y Ddeddf gyda'r bwriad o wneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu ymagwedd fwy cydgysylltiedig. Er mwyn sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn rhoi saith nôd llesiant ar waith.



## Cymru Lewyrchus

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith teg.



## Cymru Gydnerth

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid.



## Cymru Sy'n Fwy Cyfartal

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.



## Gymru Iachach

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.



## Gymru o Gymunedau Cydlynys

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.



## Gymru â Diwylliant Bywiog Lle Mae'r Gymraeg yn Ffynnu

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.



## Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

# Mae tai cymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni amcanion y ddeddf hon mewn sawl ffordd:

- Hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy:** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau tai a darparwyr tai, weithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant a amlinellir yn y ddeddfwriaeth. Mae mentrau tai cymdeithasol yn rhan annatod o ymdrechion datblygu cynaliadwy, gan eu bod yn cyfrannu at greu cymunedau gwydn, cynhwysol tra'n lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol.
- Gwella Cydlyniant Cymdeithasol a Lles Cymunedol:** Mae prosiectau tai cymdeithasol yn aml yn blaenoriaethu ymgysylltiad cymunedol, grymuso a chydlyniant. Drwy feithrin cysylltiadau cymdeithasol cryf ac ymdeimlad o berthyn ymhlith trigolion, mae tai cymdeithasol yn cyfrannu at lesiant cymunedol, sy'n un o amcanion allweddol Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Sicrhau Mynediad Teg i Dai:** Mae'r Ddeddf yn pwysleisio pwysigrwydd hyrwyddo cydraddoldeb, gan gynnwys mynediad teg at dai, gwasanaethau, a chyfleoedd i bawb mewn cymdeithas. Mae mentrau tai cymdeithasol yng Nghymru yn ymdrechu i ddarparu opsiynau tai fforddiadwy o safon i unigolion a theuluoedd o gefndiroedd amrywiol, a thrwy hynny fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol.
- Cefnogi ffyniant economaidd:** Mae mynediad at dai sefydlog a fforddiadwy yn hanfodol ar gyfer sefydlogrwydd a ffyniant economaidd. Mae tai cymdeithasol yn darparu rhwyd ddiogelwch i unigolion a theuluoedd sy'n wynebu heriau ariannol, gan ganiatáu iddynt ganolbwyntio ar angenrheidiau a chyfleoedd eraill ar gyfer addysg, cyflogaeth ac entrepreneuriaeth.
- Integreiddio Meddwl Hirdymor a Gwneud Penderfyniadau:** Mae'r Ddeddf yn annog gyrff cyhoeddus i ystyried goblygiadau hirdymor eu penderfyniadau a'u gweithredoedd ar genedlaethau'r dyfodol. Mae prosiectau tai cymdeithasol sy'n blaenoriaethu cynaliadwyedd a gwytnwch yn cyfrannu at yr amcan hwn drwy sicrhau bod buddsoddiadau tai yn diwallu anghenion trigolion y presennol a'r dyfodol heb beryglu llesiant cenedlaethau'r dyfodol.
- Cyd-weithio a gweithio mewn partneriaeth:** Mae'r Ddeddf yn pwysleisio pwysigrwydd cydweithio a gweithio mewn partneriaeth ar draws sectorau a rhanddeiliaid i gyflawni nodau a rennir. Mae darparwyr tai cymdeithasol yn aml yn cydweithio ag asiantaethau'r llywodraeth, sefydliadau cymunedol, a rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael â heriau tai a hyrwyddo datblygu cynaliadwy yng Nghymru, gan alinio â'r ysbryd o gydweithio a anogir gan y Ddeddf.

Mae'r gwaith rydym yn ei wneud yn Adra yn cyfrannu'n fawr at gyflawni'r nodau hyn - boed drwy ein gweithgareddau datgarboneiddio i gefnogi ein cwsmeriaid i gael mynediad at wasanaethau cymorth, i helpu i gael pobl yn ôl i gyflogaeth neu hyfforddiant.



# CYMDEITHASOL

Mae cael effaith tymor hir, cynaliadwy a phositif ar gymunedau a'r bobl sy'n byw ynddyn nhw bob amser wedi bod yn flaenoriaeth i Adra. Gyda dros 7,100 o eiddo yn darparu cartref sy'n addas, diogel, a fforddiadwy i dros 16,000 o bobl, rydym mewn sefyllfa amlwg i allu cael effaith bositif a dylanwad gydol oes ar fywydau a llesiant ein cwsmeriaid.

Un o'n prif flaenoriaethau yw "Cefnogi Pobl a Chymunedau i Ffynnu" ac un ffordd o wneud hyn yw drwy wneud yn siŵr bod gan ein cwsmeriaid gartref sy'n diwallu eu hanghenion heddiw ac ar gyfer y dyfodol. Yn wir, un arall o'n blaenoriaethau yw "Darparu Cartrefi o Ansawdd i fod yn Falch Ohonyn Nhw" sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid o ran ansawdd, diogelwch a fforddiadwyedd.

Ystyrir bod tai da yn allweddol i sicrhau iechyd a llesiant da tymor hir a chynyddu eu cyfleoedd bywyd gydag astudiaethau'n dangos bod aelwydydd mewn cartrefi o ansawdd da wedi gweld gostyngiad mewn derbyniadau i'r ysbty am broblemau cardiofasciwlaid, anadlol, ac anafiadau brys. O ganlyniad i dai o ansawdd gwael gwelir bod presenoldeb yn yr ysgol yn lleihau ac yn cael effaith negyddol ar gyflawniad addysgiadol, mewn gwrthgyferbyniad, gall cartrefi o ansawdd da wella addysg a hwyluso dysgu, gan leihau anghydraddoldebau yn y dyfodol. Mae cydnabod y cysylltiadau hyn yn allweddol i fynd i'r afael â chwestiwn iechyd ar raddfa gymdeithas gyfan.

## Yn ôl y Sefydliad Iechyd, mae tri ffactor hollbwysig yn cysylltu tai ac iechyd, sef:



**Ansawdd a chyflwr:** yn ymwneud â chartrefi nad ydynt yn weddus a nodweddion ffisegol cartrefi, fel diffyg atgyweirio (er enghraifft, mae lleithder yn gysylltiedig â phroblemau iechyd, gan gynnwys problemau anadlu); gorlenwi ac effaith llety wedi'i ddylunio'n dda, gofod mewnol a'r awyr agored/gerddi ar iechyd meddwl a llesiant.



**Sefydlogrwydd a diogelwch:** yn ymwneud ag i ba raddau y mae gan bobl reolaeth dros ba mor hir y maent yn byw yn eu cartrefi, a pha mor ddiogel y maent yn teimlo, yn cynnal cysylltiadau cymunedol ac ymdeimlad o berthyn.



**Fforddiadwyedd:** yn ymwneud â'r pwysau ariannol a achosir gan daliadau tai – ar gyfer y tŷ ei hun ac ar gyfer cyfleustodau, cynnal a chadw, a chostau byw bob dydd.

# Thema 1: Fforddiadwyedd a Diogelwch

Mae'r thema hon yn mynd i'r afael ag i ba raddau y mae Adra yn darparu cartrefi sy'n fforddiadwy i'r rheini ar incwm isel. Byddwn yn edrych ar sefyllfa a pherfformiad Adra mewn nifer o wahanol feysydd allweddol, e.e. fforddiadwyedd, mathau daliadaeth gwahanol sy'n cael eu cynnig a'n hymdrechion i effeithio'n bositif ar y rheini sy'n byw mewn tlodi tanwydd.

## Rydym wedi ymrwymo i ddarparu tai fforddiadwy i bawb a helpu i leihau'r anghydraddoldeb o ran tai sydd wedi dod i'r amlwg mewn cymdeithas.

Ar bron bob mesur, mae Cymru yng nghanol argyfwng tai gyda dros 90,000 o bobl ar restrau aros am dai fforddiadwy (i'w prynu neu eu rhentu) ledled y wlad. Mae prisiau tai y tu hwnt i gyrraedd nifer cynyddol o aelwydydd – yn 2022, roedd angen i weithiwr amser llawn yng Nghymru wario 6.2 gwaith eu henillion ar brynu cartref. Mae hyn yn cymharu â dim ond 3 gwaith enillion cyfartalog ym 1997 ac mae'r sefyllfa'n gwaethygu.

Ledled Cymru, mae landlordiaid cymdeithasol fel Adra yn darparu tua 165,000 o gartrefi (pob deiliadaeth) a chymorth cysylltiedig â thai i tua deg y cant o'r boblogaeth.

Yng ngogledd Cymru, mae'r galw mwyaf o fewn trefi a'r ardaloedd mwyaf poblog. Mae tai llai un a dwy lofft a fflatiau yn fwy dymunol i'r ymgeiswyr hynny sydd angen tŷ llai ar gyfer creu tenantiaethau cynaliadwy yn ein stoc. Yn hanesyddol, mae galw mawr am gartrefi teulu 3 llofft yn y trefi a'r ardaloedd mwyaf poblog. Mae diwallu'r galw yma tra ar yr un pryd yn sicrhau bod y tai yn fforddiadwy yn brif flaenoriaeth.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar ddarparu cartrefi o ansawdd sy'n ddiogel, fel landlord cymdeithasol, mae Adra hefyd yn darparu rhenti fforddiadwy.

**£107.34**

Rhent wythnosol ar gyfartaledd ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru yn 2023/24

cynnydd o **+6%** o gymharu â 2022/23

**£196.38**

Rhent wythnosol cyfartalog y sector preifat yng Nghymru yn 2023/24

cynnydd o **+4.8%** o gymharu â 2022/23

Roedd cynnydd bach yn parhau (1%) yn nhai cymdeithasol yng Nghymru gyda 238,966 o unedau tai cymdeithasol (gan gynnwys fflatiau un ystafell wely a gwelyau ar gael) fel ar 31 Mawrth 2023, o gymharu gyda 237,373 yn y flwyddyn flaenorol.

O'r rhain, roedd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn berchen ar 63% gydag awdurdodau lleol yn berchen ar y gweddill, 37%. Gwelwyd patrwm tebyg dros nifer o flynyddoedd.



Unedau tai cymdeithasol landlordiaid cymdeithasol cofrestredig

**63%** (150,437 o unedau)


Unedau tai cymdeithasol awdurdodau lleol

**37%** (88,529 o unedau)



Yn ystod 2023/24 roedd rhenti wythnosol cyfartalog Adra, er eu bod wedi cynyddu 6% o gymharu â 2022/23, yn dal i gymharu'n ffafriol o gymharu â'r sector rhentu preifat.

### Cyfartaledd rhent Adra i'w gymharu a Lwfans Tai Lleol (2023/24)




Nifer o Ysfafelloedd Gwely	Adra	Gwynedd	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Wrecsam	Cymru
	Rhent Wyth.	Rhent Wyth. + / -	Rhent Wyth. + / -	Rhent Wyth. + / -	Rhent Wyth. + / -	Rhent Wyth. + / -	Rhent Wyth. + / -
1 ystafell wely	£85	£104 -£19	£96 -£11	£93 -£8	£109 -£24	£113 -£28	£103 -£18
2 ystafell wely	£94	£119 -£25	£130 -£36	£123 -£29	£132 -£38	£122 -£28	£123 -£29
3 ystafell wely	£114	£144 -£30	£152 -£38	£145 -£31	£151 -£37	£145 -£31	£140 -£26
4 ystafell wely	£123	£167 -£44	£199 -£76	£188 -£65	£217 -£94	£200 -£77	£290 -£67

Ar gyfartaledd mae rhent cymdeithasol wythnosol Adra 19% yn llai ar gyfer eiddo 1 ystafell wely, 27% yn llai ar gyfer eiddo 2 ystafell wely, 20% yn llai ar gyfer eiddo 3 ystafell wely, a 43% yn llai ar gyfer eiddo 4 ystafell wely na'r sector preifat ledled Cymru.

**Ar ddiwedd 2023/24 roedd bron i 88% o'n cwsmeriaid yn fodlon bod eu rhent yn rhoi gwerth am arian.**

Mae cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn cael eu defnyddio i gyfrifo swm y Budd-dal Tai (ar gyfer yr elfen tai o Gredyd Cynhwysol) y gellir ei dalu i denantiaid. Mae'r cyfrif yn seiliedig ar renti'r farchnad breifat a delir gan denantiaid yn yr Ardal Marchnad Rentu Eang (BRMA) ac yn cael ei gyfyngu gan ddeddfwriaeth.

Mae ein cartrefi wedi'u gwasgaru ar draws gogledd Cymru gyfan ac mae'r LTLI yn amrywio ym mhob un o'r siroedd hyn (Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng rhent cyfartalog Adra i'r Lwfans Tai Lleol yn y pum sir yr ydym yn gweithredu ym mhob rhan o ogledd Cymru.




Nifer o Ystafelloedd Gwely	Rhent cyfartalog Adra	LTLI De Gwynedd	LTLI Gogledd Gwynedd	LTLI Conwy a Sir Ddinbych	LTLI Sir y Fflint	LTLI Wrecsam
1 ystafell wely	£85	£75	£81	£80	£92	£92
2 ystafell wely	£94	£88	£104	£114	£121	£114
3 ystafell wely	£114	£104	£121	£132	£137	£129
4 ystafell wely	£123	£121	£150	£167	£184	£167

**Mae rhenti Adra yn 93% o gyfraddau LTLI yr ardal hon ar gyfer stoc tai cymdeithasol cyfun (1 ystafell wely, 2 ystafell wely, 3 ystafell wely a 4 ystafell wely).**

## Ein cartrefi

Mae Adra yn darparu cymysgedd o fathau o ddaliadaeth i gwrdd ag anghenion gwahanol ein cwsmeriaid. Ar ddiwedd 2023/24 roeddem yn berchen/rheoli 7,107 o gartrefi:

### Nifer a math deiliadaeth y cartrefi presennol (Mawrth 2024)




- Anghenion cyffredinol
- Rhent canolradd
- Tai cefnogol
- Tai i bobl hŷn
- Sector rhent breifat
- Rhent i berchen
- Rhanberchenogaeth

Math o Ddaliadaeth	Rhif	% o'r cyfanswm
Anghenion cyffredin	5,193	73.1%
Rhent canolradd	301	4.2%
Tai â chymorth	13	0.2%
Tai ar gyfer pobl hŷn	1,417	19.9%
Sector rhent preifat	70	1.0%
Rhentu i brynu	104	1.5%
Rhanberchnogaeth	9	0.1%

**Ar ddiwedd mis Mawrth 2023 roedd 238,966 o unedau tai cymdeithasol dynodedig yng Nghymru.**

## Canran o holl unedau cartrefi cymunedol fesul math ar 31 Mawrth 2023




Mae ein Cynllun Corfforaethol 2022/25 yn nodi ein targed i ddatblygu dros 750 o gartrefi newydd yn ystod ei gylch bywyd tair blynedd, gan olygu y byddai cyfanswm ein stoc dros 7,500. Rydym wedi ymrwmo i wneud yn siŵr bod ein gweithgarwch datblygu yn cynnwys cartrefi newydd ar draws pob math o ddeiliadaeth. Mae ein rhaglen ddatblygu yn cymryd agwedd gytbwys mewn perthynas â gwahanol ddeiliadaethau. Yn ystod 2023/24 gwnaethom fuddsoddi £47.5m mewn datblygu cartrefi newydd, gan gwblhau 250 erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

Mae ein cartrefi newydd, nid yn unig yn gartrefi fforddiadwy, maent yn cael eu cwblhau i ansawdd uchel, gan ddefnyddio dulliau adeiladu modern, ac rydym yn gweithio gyda chontractwyr lleol i helpu i leihau ein hól troed carbon.

Math o Ddy	Nifer a adeiladwyd 2023/24	% o'r cyfanswm
Anghenion cyffredin	73	29.2%
Tai â chymorth	28	11.2%
Tai ar gyfer pobl hŷn	18	7.2%
Unedau arbenigol wedi'u haddasu	2	0.8%
Rhent canolradd	101	40.4%
Rhent marchnad	11	4.4%
Rhentu i brynu	8	3.2%
Rhanberchnogaeth	9	3.6%
<b>Cyfanswm</b>	<b>250</b>	

## Cartrefi newydd fesul math (2023/24)



- Angen cyffredinol
- Tai i bobl hŷn
- Rhent canolradd
- Rhent i berchen
- Tai Cefnogol
- Unedau arbenigol wedi'u haddasu
- Rhet farchnad agored
- Rhanberchenogaeth

## Lleihau effaith tlodi tanwydd

Ym mis Ebrill 2022 – pan oedd biliau ynni ar gyfartaledd yn £2,000 y flwyddyn – amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru fod dros 600,000 o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd. Dyna 45% o'r wlad. Ac yn destun pryder, mae hynny'n cynnwys bron pob un (98%) o aelwydydd incwm is Cymru; gyda hyd at 41% ohonynt mewn tlodi tanwydd difrifol – mae hyn yn cyfateb i tua 97,000 o aelwydydd.

Mae gennym ni rôl bwysig wrth gefnogi ein tenantiaid sy'n cael eu heffeithio gan dlodi. Roedd hwn yn fater amlwg yn 2023/24 gyda'r argyfwng costau byw parhaus, cyfraddau llog cynyddol a chyfradd chwyddiant cyfnewidiol.

Fel rhan o'n pecyn cymorth, rydym yn darparu gwasanaeth warden ynni i'n tenantiaid, lle rhoddir cyngor ar sut i leihau defnydd o ynni, sut i newid i dariff gwell a sut i ddefnyddio eu systemau gwresogi yn effeithiol. Mae'r warden hefyd yn darparu cymorth i geisio am grantiau a budd-daliadau, e.e. Disgownt Cartref Cynnes, Taliadau Tanwydd y Gaeaf, Grantiau DAF, disgowntiau Dŵr Cymru i wneud y mwyaf o incwm yr aelwyd.




**187**

o unigolion wedi cael gyngor ynni drwy ein cynllun warden ynni



**785**

Talebau Banc Tanwydd wedi'u sicrhau drwy'r Fuelbank Foundation



**6**

swyddogion ynni newydd (4.1 FTE) a gyflogir drwy Gyllid Ffyniant a Rennir



**£31,815**

mewn cymorth ac arbedion wedi'i gynhyrchu ar gyfer cwsmeriaid drwy gymorth wedi'i dargedu

- Yn ystod 2023/24, darparwyd cymorth a chyngor ynni i 187 o unigolion drwy ein Cynllun Warden Ynni mewn partneriaeth â Grŵp Cynefin. Roedd hyn yn cynnwys cymorth gyda cheisiadau am dalebau tanwydd, DAF a cheisiadau grant eraill, dealltwriaeth o'r system wresogi, materion mesuryddion a thrafod dyledion cwsmeriaid gyda chyflenwyr ynni.
- Fel y partner arweiniol ym Mhrosiect Sero Net Gwynedd fe wnaethom sicrhau cyllid o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, a alluogodd Adra a'i phartneriaid i gyflogi 6 swyddog ynni arall (4.1 FTE) i gefnogi a rhoi cyngor i drigolion Gwynedd ar draws yr holl ddeiliadaethau hyd at fis Rhagfyr 2024.
- Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gofrestru fel partner gyda'r Fuelbank Foundation a thrwy'r bartneriaeth hon, llwyddwyd i sicrhau cyfanswm o 785 o dalebau banc tanwydd a ddarparodd dros £32,000 i denantiaid mewn 'argyfwng tanwydd'.
- Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Cymru Gynnes yn Sir Ddinbych i gefnogi creu a dosbarthu pecynnau effeithlonrwydd ynni a hefyd i godi ymwybyddiaeth o effeithiau tldi tanwydd a mesurau i leihau'r defnydd o ynni. Mae'r prosiect hwn yn rhedeg am gyfnod o 12 mis o fis Tachwedd 2023 tan fis Rhagfyr 2024. Hyd yma, maent wedi darparu cyngor ynni ac wedi cyhoeddi pecynnau ynni i 120 o unigolion.
- Sicrhawyd cyllid grant hefyd mewn partneriaeth â Datblygu Egni Gwledig (DEG) a oedd yn ein galluogi i gyflogi 2 swyddog ynni (1 FTE) trwy DEG. Yn ystod 2023/24, derbyniodd 598 o unigolion yng Ngwynedd ymwybyddiaeth o CO<sub>2</sub> a chyngor ynni cyffredinol drwy'r cyllid hwn.
- Arweiniodd y cymorth a ddarparwyd at gyfanswm o 1,889 o ymyriadau, gan arwain at arbediad ariannol amcangyfrifedig o £31,815.

Mae sicrwydd deiliadaeth yn wahaniaeth allweddol rhwng tai cymdeithasol a'r sector preifat ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod y sicrwydd hwn yn gwneud gwahaniaeth enfawr i fywydau pobl a'u gallu i ddod o hyd i waith, cael mynediad at rwydweithiau a gwasanaethau cymorth lleol anffurfiol a ffurfiol ac adeiladu bywydau teuluol. Arfer da yn y sector tai yn awr yw cynnig tenantiaethau tymor hir i breswylwyr anghenion cyffredinol lle bo modd.

**Yn ystod 2023/24 roedd gennym 6,584 o 'Gytundebau Meddiannaeth Ddiogel'; 497 'Contractau Meddiannaeth Safonol'; a 9 'Prydles Rhanberchnogaeth'.**

**Dros y 3 blynedd diwethaf, mae 83% o gartrefi wedi bod â chytundeb tenantiaeth sefydlog (roedd yr 17% arall yn wag am gyfnod)**

# Thema 2: Diogelwch ac Ansawdd Adeiladu

## Cadw ein tenantiaid yn ddiogel


Fel darparwr tai o ansawdd, mae diogelwch ein cwsmeriaid yn brif flaenoriaeth ac rydym yn sicrhau ein bod yn diwallu ein rhwymedigaeth rheoleiddiol a chydymffurfio a hefyd yn rheoli'r holl risgiau cysylltiedig.

Mae'r thema hon yn asesu pa mor effeithiol yw Adra yn diwallu ei rwymedigaethau cyfreithiol i amddiffyn preswylwyr a chadw adeiladau yn ddiogel ac yn nodi tri maes perfformio i asesu - gwiriadau diogelwch nwy, asesiadau risg tân a chydymffurfio yn erbyn y Safon Tai Gweddus. Fodd bynnag, fel landlord yng Nghymru, mae Adra yn adrodd ar gydymffurfio yn erbyn y safon gyfatebol sef Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).


Rydym hefyd yn ehangu'r asesiadau diogelwch i gynnwys meysydd lechyd a Diogelwch y '6 Mawr' h.y. diogelwch nwy, diogelwch trydan, diogelwch lifft, legionella, asbestos, a diogelwch tân.

Yn ychwanegol at y gwiriadau cydymffurfio lechyd a Diogelwch, mae ein holl gartrefi yn cael eu hasesu yn erbyn Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) sy'n mesur 42 elfen unigol o fewn saith categori ac yn asesu a yw eiddo:


- mewn cyflwr da;
- yn ddiogel;
- wedi'u gwresogi'n ddigonol, yn defnyddio tanwydd yn effeithiol ac wedi'i hinswleiddio'n dda;
- yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi wedi eu diweddarau;
- yn cael eu rheoli'n dda (ar gyfer tai rhent);
- wedi'u lleoli mewn amgylchedd atyniadol a diogel;
- cyn belled â bod modd, yn gweddu ag anghenion penodol yr aelwyd




Cydymffurfio gyda Safon Ansawdd Tai Cymru




Cydymffurfiad cyffredinol gyda gofynion iechyd a diogelwch landlord ar gyfer y 'chwech mawr'




% Profion hylendid dŵr (legionella) a gafodd eu cynnal o fewn y dyddiad adolygu




% adolygiadau diogelwch asbestos yr ymgwymerwyd â hwy o fewn yr amserlen




% eiddo gyda thystysgrif gwresogi ddilys



% eiddo sy'n cael eu profi am ddiogelwch trydanol (cylch 5 mlynedd)



% o asesiadau risg tân wedi'u cwblhau o fewn yr amserlen



% lifftiau (cymunedol) sy'n cydymffurfio â'r safon diogelwch gofynnol

**94%**

o denantiaid yn fodlon neu'n fodlon iawn bod Adra yn darparu cartref ddiogel.

**£15.2m**

wedi'i wario ar uwchraddio a gwella ansawdd 463 o'n cartrefi yn ystod 2023/24.

## Lleithder a Llwydni

Mabwysiadwyd Polisi Lleithder a Llwydni yn 2023/24, ar ôl ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys tenantiaid. Mae'r polisi yn ddogfen sy'n gweithio ochr yn ochr â'n Polisi Awyru, a fabwysiadwyd yn ystod 2022/23 ac a gyd-ysgrifennwyd gyda'n grŵp cyfranogiad tenantiaid.


Mae'r broses bresennol wedi bod yn weithredol ers mis Mai 2023 gyda'r holl achosion o leithder a llwydni yr adroddwyd amdanynt wedi'u cofnodi o dan gategori atgyweiriadau penodol ac yn destun archwiliad o fewn cyfnod o 14 diwrnod o dderbyn galwad cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud ar gamau adferol. Yn ystod yr arolygiad rydym yn llenwi ffurflen arolwg wedi'i theilwra ac yn cynghori'r tenant ar y camau priodol y gallant eu cymryd i gynorthwyo'r sefyllfa gyda phamffled gwybodaeth.

Mae pob cam o'r broses yn cael ei fonitro'n agos - gyda dychweliadau chwarterol yn cael eu gwneud i'r Rheoleiddiwr ar faint o achosion agored sydd gennym ar ddiwedd y chwarter.

Yn ystod 2023/24 cawsom gynydd sylweddol mewn galwadau cwsmeriaid mewn perthynas â lleithder a llwydni gyda mwy o gyhoeddusrwydd ac ymwybyddiaeth o'r mater. Ar ddiwedd mis Mawrth 2024 roedd gennym 631 o achosion agored o leithder a llwydni; fodd bynnag, nid oes angen gweithredu adferol ar bob un ac maent i gael eu harolygu. Gyda'r pwysau cynyddol ar wasanaethau i fynd i'r afael â chynnydd yn y llwyth achosion, rydym wedi gweld ein hadnoddau dan bwysau sylweddol i fodloni ein hamserlen 14 diwrnod ar gyfer arolygu.

Roedd achosion agored ar ddiwedd mis Mawrth 2024 yn cyfrif am bron i 9% o'n holl gartrefi.

Achosion Llaith a Llwydni 2023/24





# Thema 3: Llais y Tenant

Mae gwranddo ar ein tenantiaid yn flaenoriaeth allweddol arall ac mae'n un o'r dangosyddion perfformiad boddhad cwsmeriaid a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (rheoleiddiwr tai yng Nghymru).

Mae'r thema yn asesu pa mor effeithiol yw Adra yn gwranddo ac yn grymuso ei denantiaid, ac yn nodi'r tri maen prawf sy'n cynnwys craffu'r Bwrdd, ymdrin â chwynion a boddhad cwsmeriaid.

Mae gwranddo ar ein tenantiaid a rhoi'r lefel o wasanaeth y maent yn ei ddisgwyl yn hanfodol ac felly mae'n un o bum maes blaenoriaeth Adra yng Nghynllun Corfforaethol 2022/25; y flaenoriaeth yw "Darparu Profiad Cwsmer Rhagorol". Mae ein cwsmeriaid bob amser wedi bod wrth galon popeth a wnawn - dyna pam rydyn ni yma a pham y byddwn ni bob amser yn edrych ar ffyrdd o wella'r profiad rydyn ni'n ei ddarparu i'n tenantiaid. Un o'n gwerthoedd craidd yw bod pobl yn 'ymddiried' ynom; mae rhoi profiad rhagorol i gwsmeriaid yn cryfhau hyn ac yn helpu i gadw'r ymddiriedaeth y mae cwsmeriaid yn ei roi ynom. Ein hethos yw gwranddo, deall a gweithredu ar yr hyn y mae tenantiaid yn ddweud wrthym.

## Dal Rheolwyr i Gyfrif

Mae gwranddo a gweithredu ar farn ac adborth ein tenantiaid bob amser wedi bod yn ganolog i waith Adra. Mae hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn diwallu eu hanghenion ac yn darparu cartrefi o ansawdd a gwasanaethau cwsmer rhagorol.

Drwy gyfranogiad tenantiaid, rydym wedi cael adborth a syniadau gwerthfawr sydd wedi ein helpu i ddylunio a gwella ein gwasanaethau. Pwy well i roi mewnweddiad i ni na'r rhai sy'n byw yn ein cartrefi a'n cymunedau ag sy'n defnyddio ein gwasanaethau. I sicrhau ein bod yn parhau i ymgysylltu gyda chwsmeriaid yn y ffordd orau, bu i ni lansio ein fframwaith gyfranogi newydd ym mis Ebrill 2023 – Eich Llais / Your Voice. Mae'r fframwaith yn darparu model hyblyg a chynhwysol ar gyfer ymgysylltu â thenantiaid.



Yn ystod 2023/24 rhoddodd dros 2,500 o denantiaid gwahanol eu barn i ni ar o leiaf un o ystod o bynciau a defnyddio ystod o wahanol ddulliau ymgynghori.

Roedd y dulliau ymgynghori a ddefnyddiwyd yn cynnwys ein panel cwsmeriaid, holiaduron boddhad tenantiaid, sgysiau ardal, ymweliadau ystadau, ymgynghoriadau cyffredinol a grwpiau tasg a gorffen yr ydym wedi bod yn ei defnyddio i ymgynghori ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys taliadau gwasanaeth, lleithder a llwydni, defnydd o'r Gymraeg, gwerth am arian, gosod rhent blynyddol, polisiau amrywiol ymhlith llawer o bethau eraill.

Er mwyn sicrhau bod llais y tenantiaid yn cael ei glywed gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, rydym wedi sefydlu 'Cyfranogiad Tenantiaid' fel eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfodydd Bwrdd Adra a'r Pwyllgor Cwsmeriaid ac Asedau, i ddangos ein hymrwymiad i'r pwnc pwysig hwn.

## Cyfranogiad Tenantiaid yng Nghymru



Mae tenantiaid yn ganolog i reoleiddio tai yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi disgwyliadau clir ar gymdeithasau tai i ddangos bod eu tenantiaid yn cymryd rhan i helpu siapio a dylanwadu ar wasanaethau a phenderfyniadau sy'n cael eu gwneud.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu model ar gyfer cyfranogiad tenantiaid – “Y Pethau Iawn”. Mae'r model yma yn ceisio ysgogi meddwl am ba ddulliau y dylid eu defnyddio i gasglu adborth gan denantiaid ar gyfer amgylchiadau penodol.

Fel rhan o Eich Llais, byddwn yn dilyn model Y Pethau Iawn wrth ymgynghori a chysylltu gyda'n tenantiaid.

## Mesur Boddhad Cwsmer

Rydym eisiau gwybod beth yw barn cwsmeriaid ar sut yr ydym yn gwneud, ac felly, rydym yn gweithio ag asiantaeth ymchwil y farchnad i ofyn i dros 125 o gwsmeriaid bob mis am eu profiadau gyda ni. Rydym yn defnyddio'r adborth yma i wella ein gwasanaethau, e.e. gan wneud mwy o'r hyn y mae ein cwsmeriaid yn dweud ein bod yn gwneud yn dda a gweithio i wella pethau sy'n eu gwneud yn llai bodlon. Rydym hefyd yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid ar ddatblygiadau polisi penodol a gweithgareddau eraill. Rydym yn defnyddio'r adborth i ddarparu gwasanaethau sy'n gweithio i'n tenantiaid.

I adlewyrchu ein hymrwymiad i'n tenantiaid, rydym yn gorff Rhagoriaeth Gwasanaeth i Gwsmeriaid achrededig, sy'n cynnwys asesiad o'n prosesau adborth cwsmer.

Drwy ein Cynllun Corfforaethol 2022/25 rydym wedi ymrwymo, erbyn 2025 i gynyddu boddhad ein cwsmeriaid gyda'n gwasanaethau.

**Yn y 12 mis diwethaf, does dim cwynion wedi eu hymchwilio gan yr Ombwdsmon.**



**93%** o gwsmeriaid yn fodlon gyda'r gwasanaethau sy'n delio'n uniongyrchol gyda chwsmeriaid



**82%** o gwsmeriaid yn fodlon eu bod wedi cael cyfle i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau



**83%** o gwsmeriaid yn fodlon ein bod yn rhoi llais iddynt ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu rheoli



**78%** o'n cwsmeriaid yn fodlon ein bod yn gwrando ac yn gwneud rhywbeth



**90%** yn fodlon ein bod yn ddibynadwy



**81%** o gwsmeriaid yn fodlon â'n lefel gyffredinol o wasanaeth

## Thema 4: Cefnogaeth i Breswylwyr

Mae Adra mewn sefyllfa gadarn i gefnogi ei gwsmeriaid i wella eu cyfleoedd mewn bywyd.

Mae'r thema hon yn asesu effeithiolrwydd ein mentrau i gefnogi cwsmeriaid unigol, ac yn cynnwys y gefnogaeth yr ydym yn ei ddarparu a pha mor llwyddiannus ydyw.

Mae ein Cynllun Corfforaethol 2022/25 yn nodi ein dymuniad i gefnogi ein cwsmeriaid a chymunedau cyfagos fel prif flaenoriaeth gorfforaethol; mae'r cynllun yn nodi ein bod yn dymuno Cefnogi Pobl a Chymunedau i Ffynnu. Ein targed yn y pendraw yw drwy weithgarwch wedi'i dargedu yw cefnogi 5,000 o bobl dros y cyfnod o dair blynedd i wella ansawdd eu bywyd. Rhai o'r meysydd ffocws yw i gefnogi ein cwsmeriaid i symud tuag at hyfforddiant a / neu gyflogaeth, hybu a gwella iechyd, lles a llesiant ein tenantiaid a chreu cymunedau y mae ein tenantiaid yn falch ohonyn nhw ac yn ddiogel i fyw ynddyn nhw. Ar ddiwedd Mawrth 2024, rydym wedi cefnogi 7,182 o unigolion.

### Cefnogaeth costau byw

Mae Adra wedi bod yn rhedeg grŵp costau byw Gwynedd gyda phartneriaid eraill sy'n cynnwys Grŵp Cynefin, Tai Gogledd Cymru, Cyngor Gwynedd, DWP, CAB a'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau gan weithio ar gynllun gweithredu ar y cyd ac ymgyrchoedd i gefnogi tenantiaid drwy'r argyfwng costau byw ac i wneud y mwyaf o'u hincwm.

Yn ystod 2023/24, cefnogwyd 427 o denantiaid drwy ein cronfa caledi, 81 gyda cheisiadau llwyddiannus i'r Gronfa Cymorth Dewisol, 518 o dalebau banc tanwydd wedi eu rhoi a 228 wedi cael taleb/cyfeirio at fanc bwyd.

Ym mis Mawrth 2023/24, lanswyd prosiect rhifedd newydd gyda'n partneriaid Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru a oedd yn cynnwys gweithio gyda thenantiaid i'w helpu i ddeall eu hincwm a'u gwariant a nodi unrhyw grantiau neu fudd-daliadau yr oedd ganddynt hawl iddynt er mwyn cynyddu incwm eu cartref.

Mae gennym gydlynnydd llesiant ariannol yn ei le i ddarparu cefnogaeth i'n tenantiaid sydd, trwy weithio'n agos gydag Adra a chydweithwyr. partner eraill, yn darparu gwybodaeth ac arweiniad i helpu i gefnogi tenantiaid gyda phob mater yn ymwneud â chyllid gan wneud yn siŵr bod

tenantiaid yn ymwybodol o gymorth ariannol, grantiau a budd-daliadau sydd ar gael.

Mae hyn yn cael ei wneud drwy newyddlenni, taflenni gwybodaeth, canllawiau cymorth a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r wasg.

Mae ein Tîm Rhent wedi mabwysiadu 'Policy in Practice'. Mae hyn yn helpu i ganfod y budd-daliadau a'r cyllid ychwanegol sydd ar gael i'n tenantiaid. Rydym yn helpu tenantiaid i geisio am fudd-daliadau, fel Credyd Cynhwysol a grantiau ychwanegol y maent o bosib yn gymwys ar eu cyfer e.e. Cronfa Cymorth Dewisol a Thaliad Disgresiwn at Gostau Tai. Rydym yn cwblhau ffurflenni incwm a gwariant gyda holl denantiaid newydd ac mae gennym gytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyngor ar Bopeth (CAB) fel bod modd i denantiaid gael cymorth a chyngor annibynnol.

Mae ein cytundeb lefel gwasanaeth gyda Chyngor ar Bopeth, a gafodd ei sefydlu yn wreiddiol yn 2021, yn golygu ein bod yn gallu cyfeirio tenantiaid atynt os ydym o'r farn y byddent yn elwa o gyngor ar ddyled, cyllidebu neu fudd-daliadau.

Yn ystod 2023/24 cafodd 124 o denantiaid eu cyfeirio at CAB. O ganlyniad cafodd cyfanswm o £142,407 o ddyled ei ddileu a chafwyd £117,264 o incwm ychwanegol.



## Cyflogaeth, sgiliau a hyfforddiant

Yn 2023/24, cefnogwyd 231 o unigolion i wella eu sgiliau a'u cyflogadwyedd naill ai gydag Adra neu drwy gontractau Adra a ddarparwyd gan bartneriaid a chontractwyr.

Mae'r rhain yn cynnwys prentisiaethau, hyfforddeiaethau, lleoliadau gwaith a phrofiad gwaith. Cefnogodd ein Academi Adra 69 o unigolion trwy ddarparu cyrsiau hyfforddi achrededig, profiad gwaith a lleoliadau gwaith â thâl.

## Gwella iechyd corfforol a meddyliol

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Byw'n Iach (gwasanaethau hamdden Cyngor Gwynedd) i gynnal sesiynau aerobeg cadair freichiau i drigolion oedrannus, mae Adra wedi cynnal diwrnod iechyd meddwl a lles i bobl ifanc. Mae gennym gytundeb lefel gwasanaeth ar waith gyda 3 hwb iechyd meddwl cymunedol yng Ngwynedd i ddarparu:

- Tan y Maen, Blaenau Ffestiniog
- Ffordd Abbey, Bangor
- Felin Fach, Pwllheli

**Yn ystod 2023/24 cynhyrchodd ein gweithgareddau werth cymdeithasol cyfatebol o £9.5m**

# Thema 5: Creu Lleoedd

Mae'r thema hon yn tynnu sylw at y gweithgarwch ehangach yr ydym yn ymgymryd ag ef i greu cartrefi wedi'u cynllunio yn dda a lleoedd sy'n diwallu anghenion lleol ac yn darparu lleoedd rhagorol i bobl fyw a mwynhau.

Mae creu lleoedd yn rhoi pobl gyntaf. Rhaid i le weithio i bawb ac wrth adeiladu ar raddfa, mae hynny'n golygu cartrefi o ddeiliadaethau cymysg i ddiwallu'r galw.

Yn hanfodol, mae hefyd yn golygu darparu llecynnau gwyrdd a mynediad at isadeiledd priodol fel ysgolion, ffyrdd, siopau a gwasanaethau hamdden yn galluogi tenantiaid i fyw eu bywydau yn eu cymunedau eu hunain.

Rydym yn chwilio am gyfleoedd partneriaeth newydd i gydweithio â sefydliadau a chymunedau eraill i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol ac economaidd dwfn, fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd, a newid hinsawdd.

Dros y flwyddyn, rydym wedi cymryd rhan mewn nifer o brosiectau cymunedol i wella amgylchedd ffisegol ein cymunedau. Dyma rai enghreifftiau:

**88%**

o denantiaid yn teimlo'n ddiogel neu'n ddiogel iawn.

**90%**

o denantiaid yn fodlon ar eu cymdogaeth fel lle i fyw.

## Creu cerddoriaeth ym Miri Melyd



Mae plant cylch chwarae yn ardal Prestatyn wedi bod yn taro'r nodau cywir ar ôl cael rhodd o offeryn cerddoriaeth i'w ddefnyddio tu allan.

Rhoddodd Castle Green Homes gloch buwch yn sefyll ar ei phen ei hun i gylch chwarae Miri Melyd yn Ysgol Melyd, fel rhan o'u hymrwymiad gwerth cymdeithasol.

Castle Green Homes oedd y contractwyr yn gweithio ar ein datblygiad Fferm Plas Newydd ym Mhrestatyn lle cafodd 102 o gartrefi newydd eu hadeiladu.



Roeddym wedi gweithio gydag ystod o bartneriaid yn trefnu digwyddiad gwybodaeth yn stad Maesgeirchen ym Mangor i drafod tlodi gyda thenantiaid.

Roedd nifer o asiantaethau yno i roi cyngor a gwybodaeth i deuluoedd, gan gynnwys Tai Gogledd Cymru, Dŵr Cymru, Cyngor Gwynedd, Grŵp Cynefin, Undeb Credyd Cambrian, Crimestoppers/Fearless, Gwasanaethau Ieuentid (Cyngor Gwynedd), Gwynedd Digidol, Papyrus, Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru, Tlodi Tanwydd, a Chartrefi Cynnes Cymru.

# AMGYLCHEDDOL

## Un o'r heriau mwyaf yn deillio o'r argyfwng newid hinsawdd yw datgarboneiddio ein cartrefi.

Mae newid hinsawdd wedi dod yn flaenoriaeth brys gynyddol i wleidyddion a'r cyhoedd ym mhob rhan o'r byd, a Llywodraeth Cymru oedd un o'r rhai cyntaf i gyhoeddi argyfwng hinsawdd ym mis Ebrill 2019. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod targed o leihau allyriadau carbon o 80%, o leiaf erbyn 2050; ym mis Mehefin 2019, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru'r targed wedi ei argymhell gan Bwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd (UKCCC) ac yn gosod uchelgais i gyflawni carbon sero net erbyn 2050.

Rydym wedi ymrwymo i leihau ein hól troed carbon ein busnes ac wedi tynnu sylw yn ein Cynllun Corfforaethol 2022/25 at sut yr ydym yn gweld ein her datgarboneiddio fel blaenoriaeth i ni fel busnes.

Mae'r her newid hinsawdd yn gofyn i ni gyd weithredu i gyfrannu at leihau allyriadau carbon lle bynnag a phryd bynnag y gallwn. Fel busnes rydym yn gwybod bod y rhan fwyaf (dros 90%) o'n hallyriadau carbon yn cael eu hallyrru o'n cartrefi. Mae'n hanfodol ein bod yn targedu effeithlonrwydd ynni'r cartrefi rydym yn berchen arnynt ac yn eu rheoli tra hefyd yn canolbwyntio ar newid ymddygiad o fewn y cwmni ei hun. Mae hwn yn uchelgais tymor hwy ond mae'n cael ei ystyried yn flaenoriaeth i'r busnes weithredu arno nawr.

Yn unol â'n huchelgeisiau i ddatgarboneiddio ein cartrefi, rydym hefyd yn ymwybodol iawn bod gweithgarwch i gynnal a chadw'r eiddo hynny, cefnogi pobl sy'n byw ynddynt a pharhau i dyfu yn arwain at allyriadau carbon sylweddol ac effaith negyddol ar yr amgylchedd fel cwmni. Rydym felly yn ailasesu i ganolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei wneud yn ymarferol i leihau'r allyriadau carbon yn y ffordd yr ydym yn gweithredu gan ganolbwyntio'n fawr ar newid ymddygiad a nodi modelau cyflawni amgen lle bynnag y bo modd.

# Thema 6: Newid Hinsawdd

Mae'r thema hon yn asesu sut y mae ein gweithgarwch yn effeithio ar newid hinsawdd. Mae'n edrych ar arferion cyfredol ar y cyd â'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno i wella perfformiad yn y dyfodol. Mae'r thema hon yn cynnwys pum maen prawf, gan gynnwys dosbarthiad cyfraddau EPC, data allyriadau, asesiad risg newid hinsawdd a darpariaeth gwybodaeth i breswylwyr.

Ym mis Chwefror 2021, gosododd Llywodraeth Cymru ei ymrwymiad cyfreithiol i gyflawni allyriadau carbon sero net erbyn 2050.


**Yn 2021, amcangyfrifwyd bod allyriadau carbon a ryddhawyd yn uniongyrchol o tu mewn i Gymru yn cyfateb i 36.3 miliwn tonnell o garbon deuocsid cyfwerth (MtCO<sub>2</sub>e), sef cynnydd o 7% o'i gymharu â 2020.**

Bydd targedau cyfreithiol newydd yn gorfodi gostyngiad o 63% erbyn 2030 ac 89% erbyn 2040 gyda Chymru yn cyrraedd 'sero net' - sef toriad 100% - erbyn 2050. Mae'r angen i bawb ymddwyn yn gyfrifol tuag at faterion yn gysylltiedig â'r hinsawdd yn gryfach yn awr nag erioed o'r blaen. Ar hyn o bryd, mae'r Safon Ansawdd Tai Cymru arfaethedig newydd yn datgan y byddai'n ofynnol i'r sector tai cymdeithasol yng Nghymru gyflawni Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) Band C erbyn 2030. Yn ogystal â tharged cychwynnol EPC C bydd angen i landlordiaid fod wedi asesu pob eiddo ac erbyn 2034 bydd angen iddynt gael 'cynllun cynhesrwydd fforddiadwy a datgarboneiddio' i gyflawni EPC A. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gymeradwyo 'Cynllun Cynhesrwydd a Datgarboneiddio Fforddiadwy' y landlordiaid.

## Sgôr EPC ein Cartrefi


Ar 31 Mawrth 2024, roeddem yn rheoli 7,139 cartref; 74% gyda sgôr EPC C neu uwch. Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd 250 o gartrefi newydd; roedd y sgôr EPC ar gyfer yr eiddo hyn i gyd yn fand A neu B, Roedd y rhai â sgôr C, D ac E yn eiddo 'prynu'n ôl'.

**Cyfradd EPC stoc gyfredol (%)**  
[31.03.2023 - 6,886 uned]



■ EPC A ■ EPC B ■ EPC C ■ EPC D ■ EPC E

**Sgôr EPC cartrefi newydd (%)**  
[fel ar 31.03.2024 - 250 o unedau]



■ EPC A ■ EPC B ■ EPC C ■ EPC D ■ EPC E



## Allyriadau Carbon Busnes Cyffredinol

O ganlyniad i'n twf fel busnes a lledaeniad daearyddol ein cartrefi (mae gennym gartrefi mewn 5 o'r 6 sir yng Ngogledd Cymru) ar 31 Mawrth 2024, cynyddodd ein hallyriadau carbon o gymharu â'r un cyfnod yn 2022/23 o 249.06 tCO<sub>2</sub>e. Fodd bynnag, gostyngodd ein hallyriadau carbon cyfartalog fesul eiddo o 2.61tCO<sub>2</sub>e i 2.57tCO<sub>2</sub>e.

Agwedd	2022/23		2023/24		Variance	
	Defnydd	Allyriadau Carbon (tCO <sub>2</sub> e)	Defnydd	Allyriadau Carbon (tCO <sub>2</sub> e)	Defnydd	Allyriadau Carbon (tCO <sub>2</sub> e)
Defnydd o drydan	90,682 kWh	18	217,585 kWh	45	+126,903	+27
Nwy naturiol	14,229 kWh	29	18,664 kWh	38	+4,435	+9
Papur	360,537 talen	0.04	588,249 talen	0.06	+227,712	+0.02
Dŵr	412 cm <sup>3</sup>	0.06	551cm <sup>3</sup>	0.1	+139	+0.04
Fflyd wen	1,265,062 milltiroedd	563	1,300,788 milltiroedd	457	+35,726	-106
Fflyd lwyd	264,485 milltiroedd	76	339,173 milltiroedd	91	+74,688	+15
Eiddo lle mae pobl yn byw ynddynt	6,993 uned	17,195	7,134 uned	17,215	+141	+20
Gwastraff	1,173 tunell	377	1,451 tunell	462	+278	+85
<b>CYFANSWM</b>	<b>18268.1 tCO<sub>2</sub>e</b>		<b>18308.16 tCO<sub>2</sub>e</b>		<b>+40.06 tCO<sub>2</sub>e</b>	
<b>Cyfartaledd allyriadau Carbon (fesul eiddo)</b>	<b>2.611 tCO<sub>2</sub>e</b>		<b>2.57 tCO<sub>2</sub>e</b>		<b>-0.041 tCO<sub>2</sub>e</b>	

Rydym wedi parhau i fuddsoddi a gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi presennol yn 2023/24, ac felly lleihau effaith amgylcheddol a lleihau'r costau i'n tenantiaid. I gefnogi ein huchelgais datgarboneiddio, rydym wedi hyfforddi ein harchwilwyr eiddo i dargedu materion effeithlonrwydd ynni yn ystod archwiliadau eiddo. Rydym yn dilyn dull "ffabrig yn gyntaf" wrth ddatgarboneiddio ein heiddo. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod eiddo yn barod ar gyfer mesurau lleihau carbon drwy ôl osod technoleg newydd dros y blynyddoedd nesaf.

Yn 2023/24 fe wnaethom fuddsoddi £3.9m ar wella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi

**463**

o gartrefi wedi cael gwaith effeithlonrwydd

**14,435m<sup>2</sup>**

o inswleiddio wal wedi'u gosod

**£485,000**

wedi'i wario ar ffenestri gwydr dwbl newydd

**£2.1m**

wedi'i wario ar inswleiddio waliau allanol

**£176,000**

wedi ei wario ar osod paneli solar

**£485,000**

wedi ei wario ar unedau gwydr dwbl

**1,804m<sup>2</sup>**

o inswleiddio llofft wedi'i osod

**137**

cartrefi wedi cael newid uPVC

**128**

o gartrefi wedi cael inswleiddio

**£188,000**

wedi'i wario ar bapur nenfwd isgoch 'Next Gen'

**1,572m<sup>2</sup>**

o unedau gwydr dwbl newydd wedi

**189**

boeleri ynni effeithlon wedi eu gosod

Mae pob tenant yn derbyn 'Canllaw Defnyddiwr Cartref' ac rydym yn cymryd amser wrth gofrestru neu wrth ddangos tai i denantiaid i ddangos iddynt sut i ddefnyddio'r systemau newydd yn eu cartrefi. Rydym hefyd yn datblygu canllaw defnyddiwr y cartref digidol i rannu'r wybodaeth. Fel rhan o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru), mae tenantiaid yn cael copi o sgôr EPC yr eiddo ac yn cael cyfle i gael eu cyfeirio at y wardeiniaid ynni.

## Rheoli perygl llifogydd

Mae'r fîm rheoli tir yn monitro ardaloedd perygl llifogydd o fewn ein daliad stoc presennol. Lle mae digwyddiadau yn codi, rydym yn ymchwilio'r achos a chanlyniadau ac rydym yn rhoi unrhyw gamau gweithredu a nodwyd ar waith yn fewnol neu drwy asiantaethau allanol. Caiff holl risgiau llifogydd eu hystyried wrth gynllunio unrhyw ddatblygiad newydd.

**Mae gan Adra strategaeth ddatgarboneiddio ar waith, sy'n cyd-fynd â thargedau sero net Llywodraeth Cymru erbyn 2050.**



## Tŷ Gwyrddfai

Cafodd ein canolfan ragoriaeth datgarboneiddio newydd, Tŷ Gwyrddfai ei hagor yn 2023/24.

Mae'r cyfleuster wedi'i greu drwy addasu 120,00 troedfedd sgwâr mewn ffatri segur (un o'r ffatrioedd mwyaf yng Ngwynedd) ym Mhenygroes. Mae'r cyfleuster yn cael ei gefnogi gan ddull partneriaeth arloesol, yn dod â'r sector tai cymdeithasol (Adra), darparwyr addysg uwch (Grŵp Llandrillo Menai) ac addysg bellach (Prifysgol Bangor) at ei gilydd i ddarparu gweledigaeth a rennir i ddiwallu her datgarboneiddio.

Mae Tŷ Gwyrddfai yn gyfleuster hyfforddiant mewn technolegau carbon isel, uwchgsilio ar gyfer ôl osod ac arloesedd mewn technoleg werdd.

Yn ystod 2023/24 buom yn llwyddiannus wrth dderbyn Cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin tuag at Gam 3 o ddatblygiad Tŷ Gwyrddfai h.y. creu cyfleuster 'labordy byw'. Bydd y labordy, sy'n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â phartneriaid o Ganolfan Biogyfansawdd Prifysgol Bangor, wedi'i gwblhau tua diwedd 2024 a bydd yn darparu cyfleoedd i brofi deunyddiau mewn amgylcheddau mewnol ac allanol efelychiedig. Bydd cael y cyfleuster unigryw hwn yng Ngogledd Cymru yn sicrhau ein bod ar flaen y gad o ran cyflawni'r agenda datgarboneiddio, gan gefnogi'r economi gylchol leol ac ehangach ar hyd y ffordd.



## Prosiect Sero Net Gwynedd

Prosiect partneriaeth allweddol arall, dan arweiniad Adra, sydd wedi derbyn Cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yw Prosiect Sero Net Gwynedd a dderbyniodd £300k – mae hyn yn dilyn buddsoddiad blaenorol o £784k trwy Gronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth Cymru a Arian cyfatebol Adra.

Amcan wreiddiol y prosiect oedd sefydlu ffordd i ddiwallu a rheoli heriau datgarboneiddio stoc tai Gwynedd. Yn gweithio gyda nifer o brif bartneriaid a grwpiau cymunedol, rydym wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth am arbed ynni o fewn cymunedau, gan ddangos buddion technolegau gwyrdd, cryfhau cadwyni cyflenwi drwy hyfforddiant wedi'i dargedu a chefnogi sefydlu Tŷ Gwyrddfai.

Adra sy'n arwain y prosiect, gan weithio'n agos iawn gyda Datblygiadau Egni Gwledig, Partneriaeth Ogwen, Grŵp Cynefin, Grŵp Llandrillo Menai a Chyngor Gwynedd ac mae sgôp y prosiect wedi esblygu dros amser.

Gan ddefnyddio cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF), erbyn Rhagfyr 2024, ein nod yw:

- Ymgysylltu â 1,500 o bobl leol i godi ymwybyddiaeth o ddatgarboneiddio, a darparu atebion a chyngor ymarferol i helpu i liniaru tlodi tanwydd
- Darparu cymorth wedi'i dargedu i 150 o bobl i'w cefnogi i leihau eu defnydd o ynni a lleihau tlodi tanwydd e.e. cyngor a chymorth i newid tariffau, mynediad at dalebau banc tanwydd ac atebion ymarferol fel blancedi cynnes.
- Ôl-osod 5-8 adeilad cymunedol i leihau eu hallyriadau CO<sub>2</sub> a defnyddio'r adeiladau hyn fel enghreifftiau ymarferol o'r hyn sy'n bosib
- Creu 6 rôl hyfforddedig yn y gymuned ynni leol h.y. swyddogion cyngor ynni

# PROSIECT SERO NET GWYNNEDD



UK Government  
Llywodraeth y DU

# Thema 7: Ecoleg



Mae'r thema hon yn asesu sut yr ydym yn diogelu ein hamgylchedd lleol ac ecoleg. Mae'n cynnwys dau faen prawf sy'n effeithio ar ecoleg leol; rheoli llygryddion a bioamrywiaeth.

Rydym yn chwilio am arfer gorau a ffyrdd arloesol i ddiwallu gofynion cynllunio o ran llecynnau gwyrdd a bioamrywiaeth. Rydym hefyd yn ceisio lleihau effaith llygryddion posib yn sgil ein gwaith.

Gan ddilyn polisi cynllunio cyfredol mae Adra yn ceisio darparu manau agored cyhoeddus priodol at ddefnydd trigolion unrhyw ddatblygiad newydd. Bydd y manau agored cyhoeddus hyn fel arfer yn cynnwys glaswelltir i greu manau chwarae i blant. Ategir hyn gan waith tirlunio (plannu) fel y cymeradwywyd gan yr Adran Gynllunio berthnasol.

Mae pob cynllun adeiladu newydd yn cynnwys penodi ecolegydd cymwys i roi cyngor ar statws ecolegol presennol y datblygiad ac i gynghori ar sut i liniaru a gwella bioamrywiaeth ar ôl datblygu. Caiff unrhyw wrychoedd presennol sy'n ffinio â safleoedd datblygu eu cynnal lle bynnag y bo modd. Mae cynlluniau plannu coed a llwyni yn cael eu cwblhau ar bob safle datblygu a gymeradwyir gyda'r holl goed brodorol hefyd yn cael eu cadw lle bo modd.

Gosodwyd amcan i'r tîm rheoli tir adolygu manau gwyrdd presennol a chyflwyno trefniadau rheoli amgen fel plannu coed, blodau gwyllt a lleihau cylchoedd rheoli. Rydym hefyd yn gweithio gyda grwpiau cymunedol i greu manau gwyrdd a rhandiroedd gwell.

Caiff holl risgiau amgylcheddol posib o weithgareddau gwaith eu nodi yn yr asesiadau risg perthnasol gyda mesurau rheoli penodol yn cael eu rhoi ar waith, fel citiau gollwng. Mae hyfforddiant atal llygredd yn cael ei ddarparu i weithredwyr yn ystod y cyfnod anwytho ac mae prosesau cynllunio at argyfwng yn eu lle. Archwiliwyd pob un o'r uchod yn erbyn ISO14001.

# Thema 8: Rheoli Adnoddau

Mae'r thema hon yn asesu sut yr ydym yn defnyddio adnoddau. Mae'i dri maen prawf yn cynnwys cyrchu deunyddiau, rheoli gwastraff a rheoli dŵr.

Mae adeiladu cartrefi newydd ac ôl osod stoc bresennol yn golygu bod risg o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol, boed yn ôl troed carbon cyffredinol i anghynladwyedd y deunyddiau sy'n cael eu defnyddio. Rydym yn ystyried yr effaith y mae ein gweithgarwch yn ei gael ar yr amgylchedd ehangach, ac yn lleihau defnydd o ddeunyddiau crai a lleihau'r gwasanaeth o'n safleoedd adeiladu.

Mae gan Adra achrediad "systemau rheoli amgylcheddol" ISO 14001:2015 drwy gorff ardystio UKAS. Mae ein polisiâu a gweithdrefnau amgylcheddol yn seiliedig ar ein dyletswydd gofal fel cynhyrchydd gwastraff ac yn dilyn egwyddorion hierarchiaeth gwastraff.

Caiff ein gwastraff ei reoli drwy ein contract cyflenwi deunyddiau; darperir gan gwmni rheoli gwastraff lleol. Mae gennym hefyd broses gwahanu gwastraff sylweddol yn y tri safle sy'n ein galluogi i wahanu'r mathau gwahanol o wastraff. Rydym yn cael holl ddata gwastraff / cyfraddau ailgylchu sy'n cael ei gynnwys yn ein cyfrifiadau ôl troed carbon, gyda chyfleoedd wedi'u hadnabod i leihau gwastraff wedi'i gynnwys yn ein cynllun gweithredu amgylcheddol.

Nid yw ein defnydd o ddŵr yn cael llawer o effaith amgylcheddol. Rydym yn monitro defnydd ar sail fisol i ddiogelu yn erbyn unrhyw ollyngiadau; ni fyddem yn ymwybodol o'r rhain fel arall. Mae gennym gynllun buddsoddi cyfalaf 25 mlynedd i adnewyddu seilwaith prif gyflenwad dŵr yn ein stadau.

## Adeiladu'n gynaliadwy

Mae ein Cynllun Corfforaethol 2022/25 yn amlinellu ein hymrwymiad i gynyddu'r defnydd o fwy o ddeunyddiau cynaliadwy yn ein cynlluniau adeiladu o'r newydd, atgyweirio, cynnal a chadw, a gwaith gwella cyfalaf yn ein cartrefi.

Mae ein prif gyflenwr Travis Perkins wedi ymrwmo i egwyddorion cyrchu cyfrifol. Roedd hyn yn ofyniad a nodwyd yn y dogfennau ar gyfer contract fframwaith deunyddiau. Mae Travis Perkins yn rhannu ein barn bod cael cynnyrch o ansawdd gan gyflenwyr cymeradwy yn hanfodol i sefydlu cadwyni cyflenwi cadarn a thryloyw. Mae perfformiad ar ffactorau amgylcheddol yn cael eu mesur drwy Sgôp 4 DPA, tra bod cyrchu deunyddiau newydd a gynhyrchwyd drwy ddulliau cynaliadwy yn rhan o brosiect gwerth peirianeg ehangach; rydym yn cael diweddariadau rheolaidd ar hyn. Caiff yr ethos cynaliadwy ei gymhwyso ar gyfer pob agwedd o'r gwasanaeth a ddarperir gan Travis Perkins, gan gynnwys darparu a sut y mae pob cangen o'r cwmni yn cael ei reoli.

**64% o ddeunyddiau a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer ein gwaith trwsio yn ystod 2023/24 wedi dod o ffynonellau cynaliadwy**



# LLYWODRAETHU

Mae llywodraethiant yn fwy na chyfres o reolau a gweithdrefnau. Mae llywodraethu yn gyfrwng ar gyfer cynnal busnes hefyd! Mae llywodraethu da yn sicrhau "bod y bobl iawn yn gwneud y penderfyniadau cywir, yn amserol gyda'r wybodaeth gywir" a bod "penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail tystiolaeth ac yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion y defnyddiwr".

Llywodraethu yw'r system sydd nid yn unig yn rhoi cyfarwyddyd i sefydliadau ond hefyd yn eu rheoli - yn arbennig felly sut y mae amcanion a gwerthoedd sefydliad yn cael eu gosod yn hytrach na'r ffordd y mae'r sefydliad yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan ei reolwyr gweithredol.

Dywedir mai sylfaen llywodraethu cadarn yw cael Bwrdd amrywiol a chytbwys sy'n gallu arwain y sefydliad yn effeithiol a darparu cyfeiriad strategol a rheoli risg ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae llywodraethu effeithiol yn fwy na'r Bwrdd. Yn sylfaenol, mae'n golygu diwylliant a ffordd o weithio. Os bydd llywodraethu yn cael ei reoli'n dda, yn cael ei werthuso'n gyson, yn cael ei reoleiddio'n briodol ac yn cael ei ddefnyddio fel llwyfan ar gyfer arloesedd, yna, bydd rhagoriaeth gwasanaeth yn cael ei sicrhau.

**Mae Adra wedi ymrwymo i gyflawni llywodraethu da a chydymffurfio â Chod Llywodraethiant Cartrefi Cymunedol Cymru.**

# Thema 9: Strwythur

Mae'r thema hon yn asesu ansawdd, addasrwydd, a pherfformiad y strwythur corfforaethol a llywodraethu. Mae'r thema yn cynnwys chwe maen prawf yn cynnwys perchnogaeth, llywodraethu, a dulliau o ymdrin gyda risg.

Mae dau brif is-bwyllgor yn adrodd i Fwrdd Adra, sef y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a'r Pwyllgor Cwsmeriaid ac Asedau. Mae gan ein strwythur grŵp hefyd Fwrdd ar wahân i oruchwylio a llywodraethu gweithredu'r is-gwmni masnachol, Medra.

Mae gan ein holl Fyrddau a phwyllgorau gadeiryddion ar wahân sy'n wahanol i Brif Weithredwr y Grŵp. Gofynnir i holl aelodau Bwrdd lofnodi a chadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Bwrdd. O fewn y Cod mae rheolau penodol i reoli a datgelu gwrthdaro mewn buddiannau neu wrthdaro posib mewn buddiannau. Gofynnir i bob aelod gwblhau ffurflen datgan diddordeb yn flynyddol a rhoi gwybod i'r cwmni am unrhyw newidiadau perthnasol o fewn y flwyddyn neu yn ystod cyfarfod o'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Rhaid cael caniatâd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (Financial Conduct Authority - FCA) cyn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i Reolau Adra.

Mae Adra (Tai) Cyf. yn landlord cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru ac mae ganddo statws gyfreithiol fel sefydliad nid er elw o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014.

Gofynnir i ni gyflwyno adroddiad hunan-asesu blynyddol i'r Rheoleiddiwr Tai yn erbyn y 9 Safon Perfformio sydd wedi'u cyhoeddi. Mae'r adroddiad hwn ar y cyd â'r wybodaeth monitro rheolaidd a gyflwynir drwy gydol y flwyddyn yn hysbysu Dyfarniad Annibynnol y Rheoleiddwyr Tai ar ein hyfywedd ariannol a'n llywodraethu yn gyffredinol.

Cadarnhaodd y Dyfarniad Rheoleiddiol diweddaraf a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022 y dosbarthiad uchaf posibl yn y ddau gategori. I helpu i sicrhau llywodraethu da, rydym yn aelod o Gartrefi Cymunedol Cymru (CHC) ac mae ein cod llywodraethu yn cymhwyso'r model CHC sydd wedi'i gytuno.

Nid yw Adra na'i is-gwmni Medra yn ddarostyngedig i unrhyw ganfyddiadau negyddol yn ystod 2023/24.



**Llywodraethu**  
(gan gynnwys gwasanaethau tenant)

**GWYRDD**



**Hyfywedd Ariannol**

**GWYRDD**



# Rheoli Risg

Mae ein Fframwaith Rheoli Risg yn amlinellu ein dull o ymdrin â risg, gan gynnwys sut yr ydym yn canfod risgiau a allai effeithio ar ein gwasanaethau, busnes a chwsmeriaid. Mae'r fframwaith yn cael ei hadolygu a'i fabwysiadu'n flynyddol gan y Bwrdd.

Mae gennym System Rheoli Integredig ISO achrededig UKAS ar waith sy'n cynnwys ISO 9001: 2015 (Ansawdd), ISO 14001: 2015 (Amgylcheddol) ac ISO 45001: 2018 (Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol). Mae ein Fframwaith Rheoli Risg yn ategu ein hymrwymiad i gynnal ardystiad. Mae hefyd yn cefnogi ein hymrwymiad i sefydlu ac ymgorffori fframwaith rheoli risg sy'n amddiffyn ei swyddogion, staff, cwsmeriaid, partneriaid a'r cyhoedd. Mae'r fframwaith yn cael ei adolygu'n flynyddol i adlewyrchu sefyllfa ein busnes ac archwaeth risg y Bwrdd.

Rydym yn gweithredu dwy gofrestr lefel risg corfforaethol, sef Cofrestr Risg Strategol (yn amlygu risgiau ble mae achosion sydd fel arfer yn allanol i'r busnes, os byddant yn digwydd, byddai'n ddigon difrifol i olygu y byddai angen o bosib newid mewn cyfeiriad strategol) a Chofrestr Risg Gweithredol (ble gall achosion fod yn fewnol neu allanol ac

os byddant yn digwydd byddai'n effeithio ar ein gallu i gyflawni ein strategaeth busnes cyfredol neu wella / cyflenwi ein gwasanaethau dydd i ddydd).

Mae gennym swyddogaeth rheoli risg canolog sy'n cynghori ac yn cefnogi perchnogion risg pan maent yn adolygu'r risg dynodedig ac yn diweddarau'r cofrestrau risg a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am reoli risg yn gyffredinol, gyda'r Prif Weithredwr yn rheoli cyfrifoldeb gweithredol o ddydd i ddydd drwy'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth.

I arwain gweithgarwch ein busnes a lefel y risg yr ydym yn barod i amlygu ein hunain iddo, mae ein Bwrdd yn cynnal asesiad blynyddol SWOT a PESTLE ac yn sefydlu eu harchwaeth risg am y flwyddyn. Mae hyn yn asesu ac yn sefydlu eu lefelau goddefiant risg ar gyfer cyfres o feysydd risg thematig sy'n gysylltiedig â'r busnes, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i 'Dwf a Datblygu', 'Iechyd a Diogelwch', 'Buddsoddiadau Ariannol' ayyb. Cafodd y rhain eu hadolygu ddiwethaf a chytunwyd arnynt gan y Bwrdd ym mis Chwefror 2024.

Ar ddiwedd Mawrth 2024, roeddem wedi rheoli 10 risg 'strategol' a 40 risg 'gweithredol' drwy ein cofrestrau risg. Caiff risgiau eu hasesu a'u sgorio gan ddefnyddio matrices 5x5 gyda risgiau yn cael eu categorio fel a ganlyn:

Tebygolrwydd	Pendant	5	5	10	15	20	25
	Yn debygol iawn	4	4	8	12	16	20
	Posibl	3	3	6	9	12	15
	Annhebygol	2	2	4	6	8	10
	Ddim yn ddisgwyliedig	1	1	2	3	4	5
			1	2	3	4	5
		Dibwys	Bach	Cymedrol	Mawr	Critigol	
Effaith							

Lefel risg	Categori Risg	Ymateb a Argymhellir
16-25	Bygythiad uchel iawn	Lefel annerbyniol o amlygiad risg sy'n ei gwneud yn ofynnol cymryd camau cywiro ar unwaith.
11-15	Bygythiad uchel	Lefel annerbyniol o amlygiad risg sy'n ei gwneud yn ofynnol i fonitro a mesurau gweithredol cyson gael eu rhoi ar waith i leihau amlygiad
6-10	Bygythiad Canolig	Lefel dderbyniol o risg yn amodol ar fesurau monitro gweithredol rheolaidd
1-5	Bygythiad Isel	Lefel dderbyniol o risg sy'n ddarostyngedig i fesurau monitro goddefol.

# Thema 10: Bwrdd ac Ymddiriedolwyr

Mae'r thema hon yn asesu ansawdd, addasrwydd a pherfformiad y Bwrdd ac ymddiriedolwyr. Mae'r thema yn cynnwys un ar ddeg maen prawf gan gynnwys demograffeg y Bwrdd, perchnogaeth, profiad, ac annibyniaeth y Bwrdd.

Deiliadaeth aelodau Bwrdd ar gyfartaledd  
**45.7 mis**  
(Ar hyn o bryd yn gwasanaethu hiraf 6 blynedd 5 mis)

Ar 31ain Mawrth 2024 roedd 12 aelod, ar Fwrdd Adra ac maent i gyd yn gyfarwyddwyr anweithredol

**9 mlynedd** Uchafswm deiliadaeth aelodau Bwrdd

**23%** Trosiant y Bwrdd (3 aelod wedi camu i lawr a chael rhywun yn eu lle)

Gofynnir i holl aelodau Bwrdd lofnodi a chadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Bwrdd. Yn y Cod hwn, mae rheolau penodol ar reoli a datgan gwrthdaro mewn buddiannau (gan gynnwys unrhyw wrthdaro posibl). Mae hefyd yn ofynnol i bob Aelod lenwi ffurflen Datganiad o Fuddiant Personol blynyddol, a gwneud Ysgrifennydd y Cwmni yn ymwybodol o unrhyw newidiadau perthnasol wrth iddynt godi.

Cafodd gwerthusiad cynhwysfawr o sgiliau Bwrdd wedi'i hwyluso'n annibynnol ei gynnal yn 2022/23 gan Adra - cyflwynwyd y canfyddiadau mewn ystyriaethau cynllunio olyniaeth. Bydd Adra yn symud y mater ymlaen drwy recriwtio a chynllun olyniaeth manwl.

Mae ein Panel Penodi, Tâl a Disgyblu yn cynnwys Aelodau'r Bwrdd (pob un ohonynt yn anweithredol) ac mae gan ddau Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd brofiad ariannol proffesiynol. - un o'r rhain yn ddiweddar iawn / profiad proffesiynol actif. Yn ychwanegol, mae gan Gadeirydd Adra hefyd brofiad bancio proffesiynol, a gall ymarfer yr hawl i fod yn bresennol fel aelod 'ex-officio' yn y Pwyllgor hwn.

Proffil Oedran Cyfartalog		Rhaniad Rhywedd y Bwrdd	
Bwrdd	Cwsmeriaid	Benyw	Gwryw
<b>61 mlynedd</b>	<b>52 mlynedd</b>	<b>5</b>	<b>8</b>
Proffil BAME			
Bwrdd	Cwsmeriaid	Gwynedd	Gogledd Cymru
<b>0%</b>	<b>1%</b>	<b>4%</b>	<b>3%</b>
Proffil Anabledd			
Bwrdd	Cwsmeriaid	Gwynedd	Gogledd Cymru
<b>15%</b>	<b>22%</b>	<b>19%</b>	<b>21%</b>

## Rhaglen Newid Arweinyddiaeth

Yn ystod 2023/24, ymddeolodd y Prif Weithredwr blaenorol (Ffrancon Williams), a phenodwyd ei olynydd (Iwan Trefor Jones). Yn dilyn ei benodiad, cyflwynodd y Prif Weithredwr newydd 'Raglen Newid Arweinyddiaeth' newydd a chymeradwyodd y Bwrdd strwythur Gweithredol / Uwch Reolwyr newydd.

Crëwyd tair rôl newydd ar y Tîm Gweithredol (Cyfarwyddwr Pobl a Chyfathrebu; Cyfarwyddwr Eiddo a Chyfarwyddwr Polisi a Chyflawni) a phenodwyd pob un ohonynt yn ystod y flwyddyn.

# Thema 11: Llesiant Staff

Mae'r thema hon yn asesu i ba raddau yr ydym yn gyflogwr da, ac yn cynnwys dau faen prawf, sef, y gymhareb gyflog Prif Weithredwr – gweithiwr a datgeliad ar fod yn gyflogwr Cyflog Byw.

Ein staff yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr ac nid yw llesiant staff erioed wedi bod mor bwysig. Fel busnes rydym wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd gweithio iach a gwella ansawdd bywydau gwaith pob aelod o staff.

Mae gennym Raglen Iechyd a Lles blynyddol sydd wedi'i dylunio a'i theilwra o amgylch absenoldebau a digwyddiadau parhaus/blaenorol staff ac sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn hyrwyddo nifer o ddiwrnodau/misoedd/mentrau ymwybyddiaeth.

Mae gennym hefyd Bolisi Iechyd Meddwl, Straen a Llesiant ar gyfer staff, mae cwnsela cyfrinachol ar gael bob amser i staff drwy Wasanaethau Cwnsela Medra drwy hunan-gyfeirio neu gyfeirio drwy AD am hyd at 6 sesiwn.

Mae Adra yn darparu aelodaeth i gynllun Healthshield (sicrwydd iechyd preifat) sydd ar gael i holl staff a gall helpu gyda chostau iechyd a llesiant corfforol a meddyliol (e.e. ffisiotherapi, ceiropractyddion, deintydd ac ati). Mae hefyd yn cynnwys mynediad at ap iechyd meddwl a chynllun gostyngiadau.

Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi rhoi mynediad ac amser i staff gwblhau sawl gweminar ar-lein a sesiynau hyfforddi i uwchsgilio a darparu cymorth ar iechyd corfforol a meddyliol e.e. cymorth cyntaf, cymorth cyntaf iechyd meddwl, ymwybyddiaeth iechyd meddwl, gweminar gweithio'n dda mewn byd rhithiol ac ati.

Rydym yn cynnal Diwrnod Llesiant Staff blynyddol sy'n cynnwys amrywiaeth o weithdai ar-lein neu weithdai wyneb yn wyneb ar sut i ofalu a gwella iechyd a lles personol. Cyngor Gwynedd sy'n darparu ein gwasanaeth iechyd galwedigaethol sy'n cynnwys Cynghorwyr Iechyd Galwedigaethol a meddyg iechyd Galwedigaethol arbenigol, y gallwn gyfeirio ato ar unrhyw adeg. Mae'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol hefyd yn cynnal monitro iechyd blynyddol ar gyfer staff yn ôl yr angen.

**Fel cyflogwr rydym yn parhau i dalu'r 'cyflog byw gwirioneddol' i'n staff fel sy'n cael ei gyfrifo gan y Living Wage Foundation. Rydym hefyd yn gwneud yn siŵr bod ein holl gyflenwyr yn dilyn yr un peth ac yn cynnig y 'cyflog byw gwirioneddol' i'w staff (heblaw am brentisiaid).**

**4.24%**


Bwlch cyflog rhwng y rhywiau

**4.85:1**


Cymhareb cyflog prif swyddog gweithredol i weithiwr

# Canlyniadau Boddhad Staff 2023


Dywedodd ein harolwg boddhad staff diweddaraf a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2023 wrthym:



98% o staff o'r farn bod Adra yn parhau ymrwymiadau personol a theuluol



95% o staff o'r farn bod rhywun yn y gwaith yn meddwl amdany'n nhw fel person



95% o staff o'r farn bod eu hiechyd a'u llesiant yn bwysig i Adra

## Prosiect Perthyn



Nod y prosiect yw sicrhau bod pawb yn Adra yn teimlo eu bod yn perthyn i Adra heb unrhyw ragfarn na gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd nodweddion fel eu crefydd, hil, rhyw, rhywioldeb, sefyllfa economaidd, cefndir, hunaniaeth ac ati.

Mae hyn yn wir am ein staff a'n tenantiaid.

Dyma pam ein bod wedi creu'r prosiect er mwyn cyfathrebu a siarad am y gwaith yr ydym yn ei wneud yn barod i gyflawni hyn ac i wneud hyd yn oed mwy i sicrhau nad oes neb yn cael ei drin yn annheg.

Yn Adra rydym am gynnwys pawb a dathlu'r amrywiaeth sydd gennym a gwneud yn siŵr bod pawb yn ymwybodol o gydraddoldeb ac amrywiaeth a'i fod yn rhan o'r penderfyniadau a wnawn fel cwmni bob dydd.

Rydym hefyd am gynyddu amrywiaeth o fewn ein gweithlu.



# Thema 12: Cadwyn Gyflenwi

Mae'r thema hon yn asesu i ba raddau y mae'r darparwr tai yn defnyddio ei gadwyn gyflenwi i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae'r thema yn cynnwys dau faen prawf gan gynnwys gwerth cymdeithasol ac effaith amgylcheddol yn y maes caffael.

## Gwerth Cymdeithasol

Bu ffocws ychwanegol dros y blynyddoedd diwethaf ar sicrhau bod ein gweithgarwch yn gwneud y mwyaf o werth cymdeithasol a'r effaith ar y buddsoddiadau yr ydym ni yn eu gwneud. Mae hyn wedi'i yrru gan y cydlynnydd gwerth cymdeithasol newydd a thimau perthnasol ym mhob rhan o'r cwmni. Penllanw hyn oedd cyhoeddi adroddiad blynyddol cyntaf Adra ar werth cymdeithasol yn Haf 2023 sydd ar gael i'w weld ar ein gwefan.

Mae gwerth cymdeithasol hefyd wedi'i ymgorffori yn ein gweithgareddau caffael a lle'n briodol, mae gwerth cymdeithasol yn cyfrifo am 10% o'r maen prawf gwerthuso ar gyfer holl contractau dros £50,000. Mae cwestiynau tendr gwerth cymdeithasol wedi'u dylunio yn y cam cynllunio i sicrhau bod blaenoriaethau corfforaethol yn cael eu hateb, e.e. cefnogi tenantiaid a phobl sy'n byw yn ein cymunedau i gael mynediad at gyflogaeth a hyfforddiant. Mae'r cydlynnydd gwerth cymdeithasol wedi sicrhau bod y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan staff Adra a phartneriaid - boed drwy ein buddsoddiadau neu ein gwaith yn y gymuned, yn cael ei ddangos yn fewnol ac allanol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi defnyddio'r hyn rydym wedi'i ddysgu dros y blynyddoedd blaenorol ac wedi gwthio'n galetach fyth ar ein nodau gwerth cymdeithasol. Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar wneud yn siŵr bod ein gweithgarwch busnes yn cynyddu gwerth cymdeithasol ac effaith y buddsoddiadau a wnawn i'r eithaf - wedi'i ysgogi gan y cydlynnydd gwerth cymdeithasol newydd a thimau ar draws y busnes.

2023/24	
Gweithgaredd	Gwerth Cymdeithasol (£)
Academi Adra	£440,516
Addasiadau	£1,030,731
Prentisiaethau a hyfforddeion	£99,608
Gwasanaeth cyfeirio Cyngor ar Bopeth	£1,459,165
Contractau lleol (asedau ac adeiladu o'r newydd)	£3,145,269
Menywod yn y diwydiant adeiladu	£17,077
Cyfeiriadau lechyd meddwl	£673,244
Atal digartrefedd	£164,806
Gwasanaeth trwsio, cynnal a chadw	£526,112
Datrys ymddygiad gwrthgymdeithasol	£979,260
Diwrnodau amgylcheddol	£7,820
Wardeiniaid ynni	£507,976
Gweithgareddau haf	£126,144
TENDRA	£2,846
Cefnogaeth tenantiaeth	£77,672
Tai â chymorth	£324,390
<b>Cyfanswm</b>	<b>£9,582,636</b>

## Fframwaith caffael arloesol

Bydd Ffrâm 24, Fframwaith Cymru Gyfan arloesol yn chwyldroi'r ffordd y mae sefydliadau yn prynu deunyddiau adeiladu a chynhyrchion cysylltiedig.

Mae Ffrâm 24 wedi'i sefydlu i gynnig datrysiadau cynhwysfawr ar gyfer deunyddiau adeiladu a gwasanaethau cysylltiedig. Mae'n sefyll allan am ei effaith gymdeithasol sylweddol, gan gyfeirio buddsoddiad i gwmnïau Cymreig a gwneud yn siŵr bod y gwerth cymdeithasol a gynhyrchir yn aros yng Nghymru. Bydd yn helpu i gefnogi cymunedau a'r economi leol.

Bydd y Fframwaith yn cefnogi'r economi gylchol drwy gadw'r gwariant yn lleol. Bydd llwyddiant

Ffrâm24 nid yn unig yn helpu sefydliadau sy'n cymryd rhan ond hefyd yn cael effaith gymdeithasol bositif sylweddol.

Gall ystod o gyrff sector cyhoeddus ac elusennau yng Nghymru ddefnyddio Ffrâm24.



## Effaith amgylcheddol

Pan fyddwn yn caffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i bob cynigydd ardystio a oes ganddynt y naill neu'r llall o'r Systemau Rheoli Amgylcheddol a ganlyn ar waith:

- ISO 14001:2015 (achrediad UKAS)
- Y Ddraig Werdd (Lefel 4 neu uwch)

Yn unol â'n strategaeth datgarboneiddio, rydym hefyd yn gweithio gyda'n cadwyn gyflenwi i asesu sut y gellir lliniaru effaith amgylcheddol ein gweithgareddau caffael. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ein "Prosiect Sero Net Gwynedd", ac un o elfennau'r prosiect hwn yw "Cryfhau Cadwyni Cyflenwi".

